

Pob Rhanddeiliad/Ymgynghorai

Your Ref/Eich Cyf

Our Ref/Ein Cyf

Date/Dyddiad 16 Mai 2016

Ask for/Gofynnwr am Tim Moderneiddio Ysgolion

Direct Dial/Rhif Union 01352 704134

Annwyl Rhanddeiliad/Ymgynghorai,

**Cynnig i gau Ysgol Maes Edwin, (Ysgol Gymunedol Cyfrwng Saesneg) o 31 Awst 2016 gyda disgyblion yn trosglwyddo i ysgolion eraill yn yr ardal leol yn amodol ar ddewis y rhieni**

Ddydd Mawrth, 19 Mai 2016, penderfynodd Cabinet Cyngor Sir y Fflint ar y cynnig i gau Ysgol Maes Edwin o 31 Awst, 2016 gyda disgyblion presennol yn trosglwyddo i ysgolion eraill yn yr ardal leol yn amodol ar ddewis y rhieni. Ystyriodd y Cabinet y cynnig, y gwrthwynebiadau statudol a gafwyd, ynghyd ag ymateb yr awdurdod lleol yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013. Yn dilyn trafodaeth, penderfynodd y Cabinet gymeradwyo'r cynnig.

Cafodd penderfyniad y Cabinet fodd bynnag ei alw i mewn yn ddiweddarach. Ddydd Iau, 28 Ebrill, 2016 pan ystyriwyd a thrafodwyd y penderfyniad yn drylwyr gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg a Ieuenctid. Ar ôl ystyried y penderfyniad, cyfeiriwyd y mater at y Cyngor Llawn. Cyfarfu'r Cyfarfod ddydd Mawrth, 10 Mai 2016 ac, yn dilyn trafodaeth a dadlau brwd, derbyniodd yr esboniad a gafodd. Yna penderfynodd y Cyngor llawn weithredu'r penderfyniad.

Wrth benderfynu ar y cynnig, roedd y Cabinet yn fodlon y bydd y cynnig yn:

- Cynnal safon addysg bresennol yr ardal a darparu o leiaf safon cyfwerth o ddarpariaeth ar gyfer disgyblion presennol Ysgol Maes Edwin;
- Lleihau Llefydd Gwag;
- Arwain at ddsbarthiad tecach a mwy cyfiawn o gyllid disgyblion er lles holl ddisgyblion yr ardal;
- Cynnal mynediad a ffafriaeth rhieni am ddarpariaeth cyfrwng Saesneg yn yr ardal.

Nodwyd bod 42 o wrthwynebiadau gan rieni, staff, Corff Llywodraethu Ysgol Maes Edwin, aelodau o'r gymuned a disgyblion. Mae crynodeb o'r gwrthwynebiadau wedi'u nodi yn yr adroddiad gwrthwynebiad sydd ar gael ar wefan Cyngor Sir y Fflint drwy ddilyn y ddolen

County Hall, Mold. CH7 6ND  
[www.flintshire.gov.uk](http://www.flintshire.gov.uk)  
Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug. CH7 6ND  
[www.siryfflint.gov.uk](http://www.siryfflint.gov.uk)

We welcome correspondence in Welsh. We will respond to correspondence received in Welsh without delay.

Rydym yn croesawu gohebiaeth Gymraeg. Ymatebwn yn ddi-oed i ohebiaeth a dderbynnir drwy gyfrwng y Gymraeg.



ganlydol (os oes angen copiâu caled yn Gymraeg neu yn Saesneg, e-bostiwdch [21stcenturyschools@flintshire.gov.uk](mailto:21stcenturyschools@flintshire.gov.uk) gyda'r cyfeiriad post);

[www.flintshire.gov.uk/ObjectionReportYsgolMaesEdwin](http://www.flintshire.gov.uk/ObjectionReportYsgolMaesEdwin)

[www.siryfflint.gov.uk/AdroddiadGwrthwynebuYsgolMaesEdwin](http://www.siryfflint.gov.uk/AdroddiadGwrthwynebuYsgolMaesEdwin)

Y rhesymau dros y penderfyniad o ran y ffactorau a amlinellir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion yw:

### **1) Ansawdd a Safonau mewn Addysg**

1. Barn Estyn yw y byddai'r cynnig o leiaf yn cynnal y safon gyfredol o addysg yn yr ardal pe bai'r cynnig yn cael ei roi ar waith.
2. Mae ystod o ddata cyd-destunol wedi ei ddarparu ynglŷn ag Ysgol Maes Edwin (Cornist C.P., Fflint, Gwynedd C.P., Fflint and Ysgol Owen Jones)
3. Mae data hefyd wedi'i ddarparu yn ymwneud â charfannau a aseswyd yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2, adroddiadau Estyn a sylwebaeth ynglŷn â darpariaeth bresennol ym mhob ysgol yn amodol ar y cynnig.
4. Yn ystod y cyfnod trosglwyddo, bydd y Cyngor yn cymryd pob cam ymarferol i leihau aflonyddwch i bob disgybl drwy weithio'n agos gydag ysgolion sy'n derbyn.
5. Ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, bydd y cyfnod trosglwyddo yn cael ei reoli gan swyddogion addysg anghenion dysgu ychwanegol, a bydd cymorth ychwanegol yn cael ei ddarparu os oes angen i gynorthwyo disgyblion gyda'r trosglwyddo.

### **2) Yr angen am lleoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion**

1. Bydd y cynnig yn cyfrannu tuag at sicrhau y bydd yr ardal yn cadw cydbwysedd darpariaeth ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg a Saesneg a lleihau lleoedd dros ben yn yr ardal.
2. Bydd gan y ddarpariaeth ysgol amgen ddigon o gapasiti a bydd yn darparu lleoliad o ansawdd cyfatebol o leiaf.
3. Cynnal mynediad ar gyfer dewis y rhieni o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a Saesneg yn yr ardal
4. Mae'r Cyngor wedi dangos y byddai'r amser teithio ar gyfer y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gostwng, ar gyfer rhai disgyblion byddai'r amser teithio yn cynyddu, ond, o ystyried pa mor agos yw'r ysgolion eraill, maent o fewn y canllawiau yn unol â Mesur Teithio Dysgwyr Llywodraeth Cymru.
5. Bydd Cludiant o'r cartref i'r ysgol yn cael ei ddarparu ar gyfer disgyblion yn unol â'r Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol.

### **3) Darparu adnoddau ar gyfer addysg**

1. Bydd y cynnig yn arwain at ddsbarthiad tecach a mwy cyfiawn o gyllid disgyblion er lles holl ddisgyblion yr ardal

2. Bydd arbedion sy'n deillio o'r cynnig yn cael ei gadw a'i ail-fuddsoddi yng Nghynllun Moderneiddio Ysgolion y Cyngor i gyflawni ei flaenoriaethau gan gynnwys buddsoddi mewn adeiladau ysgolion.
3. Mae cyllid disgyblion yn dilyn y disgyblion i'r ysgol y byddent yn mynd iddi.
4. Bydd costau cludiant ychwanegol a gynhrychir o ganlyniad i'r cynnig hwn yn cael ei ariannu o'r arbedion net a gynhrychir.


#### **4. Ffactorau penodol a ystyrir cyn cau ysgol.**

Nododd y gwrthwynebwyr y pryderon a ganlyn: -

1. Pryderon am les y disgyblion, mae disgyblion eisoes wedi trosglwyddo o ysgolion eraill, bwlio, methu cael lle mewn ysgol benodol, colli ffrindiau, gorfod symud i ysgol fwy, pryder am gymorth addysgol, dosbarthiadau mawr
2. Pryderon nad yw rhieni'n cael dewis ysgol i'w plant.
3. Pryderon am y broses ymgynghori, data, effaith y broses datblygu tai newydd ar gymuned yr ysgol
4. Effaith ar y gymuned/defnydd y safle i'r dyfodol pe bai'r ysgol yn cau.
5. Pryder am yr arian a fuddsoddwyd eisoes yn yr ysgol.
6. Pryder na chafodd y Llywodraethwyr ddigon o amser i drafod ffedereiddio.
7. Cludiant.

Yn dilyn y penderfyniad, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i weithio gyda'r teuluoedd, staff a llywodraethwyr Ysgol Maes Edwin, Mynydd y Fflint i gefnogi dysgwyr drwy'r cyfnod pontio.

Yn gywir



Ian Budd  
Prif Swyddog Addysg ac Ieuenctid